# Llên natur

**Bwletin 136**
**Mehefin 2019**

**gan gynnwys Y Bwrdd Natur,**
**adnodd i athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**



**Bras y Cyrs, Cors Ddygai, Pentre Berw**

**25 Ebrill 2019 (10.30yb)** **Keith Roberts**

Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

## 2019 - blwyddyn dant y llew?



Dant y llew ! Rhes-y-Cae.

**Alun Williams**

Sgwn i be sy tu ol i gaeau o ddant y llew ‘plagus’ fel hyn? Pan mae o’n gyffredinol mae’n dueddol o fod ar ôl gwanwyn oer ond mae’n siwr bod ffactorau mwy lleol yn yr achos hwn.

Yn dwyn i gôf. O.M.Edwards yn sôn, yn un o'i lyfrau teithio diwedd y 19 ganrif, mor llwm oedd ardaloedd diwydianol Glannau Merswy o dyfiant gwyrdd ac mai'r unig flodyn a welsai yn ffynnu oedd dant y llew! Gyda chynifer ohonynt eleni, ac os oes coel ar ei enw traddodiadol, blodyn piso'n gwely yma a pissenlit yn Ffrainc, mi fydd ein gwelyau ni'n socian!!!!!! **Hefin Williams**

## Cofio Liz Howe




CYMUNED Llên natur

**Grŵp Llên Natur ar Facebook**

**Ymlysgydd o fri, mam, gwraig a chyfaill triw i Brosiect Llên Natur**

## Mwy am y llun clawr....

Bras y Cyrs....... Cors Ddygai, Pentre Berw. **Keith Roberts**


**Limnaecia phragmitella** cosmed hesg
**eg** cosmedau hesg Bulrush cosmet



*Gwyfynod a Glöynnod Byw. Cymdeithas Edward Llwyd 2007*

Nid yr hadau mae’n debyg sydd yn mynd a bryd y breisyn ar y clawr ond c’nonyn gwyfyn y **cosmed hesg** *Limnaecia phragmitella* yn llechu y tu fewn. Hwnnw sydd wedi creu y fath hafoc ar yr hadau cyn i’r aderyn gyrraedd. Darllenwch fwy: https://ukmoths.org.uk/species/limnaecia-phragmitella/

Dyma fap y pryf. O bosib y bydd hwn yn gofnod sgwar newydd (os caiff ei dderbyn gan Cofnod - ar sail yr ‘hafoc’). Beth am gynnig cyfeirnod grid (ee. SH34 67) Keith, cyn iddo fynd yn angof?





Dyma adeg y flwyddyn pan fydd pobl newydd orffen plethu gwrychoedd. Dyma esiampl dda yn ne swydd Derby.

Mae’r gwrych hwn wedi cael ei blethu yn y modd ‘Canolbarth Lloegr’ sy’n addas i wrthsefyll pwysau anifeiliaid mawr fel ceffylau a gwartheg. Trysor Prydain ydy’r amrywiaeth yn y ffordd mae gwrychoedd yn cael eu plethu’n draddodiadol mewn ardaloedd gwahanol. **Pa mor unigryw i Gymru a Lloegr yw plygu?**

**Martin Coleman**

Wedi bod allan yn gweithio yn Awstria (Klagenfurt a Bregenz) a Ffrainc (Aix en Provence) a cherdded cryn dipyn o gefn gwlad yno a sylwi ar ddim gwrychoedd wedi eu plygu. Gweithio yn yr Alban ar hyn o bryd a heb weld dim arfer o blygu gwrychoedd yma chwaith. **Sion Goronwy**

Cloddiau pridd sy, gan fwyaf, yn Llydaw a bydd pobl yn tyfu banadl, eithin ac ati arnyn nhw. Heb weld yr un enghraifft o blygu perth yma. **Derec Stockley**

*PLEACHING* yn ardaloedd Saesneg llefydd fel Sir Frycheiniog

**Beth am gofnodi engreifftiau lle bynnag y gwelch nhw?**

**Cysylltwch â Llên Natur : llennatur@yahoo.co.uk**

**Cofiwch : CYMUNED LLÊN NATUR (grŵp Llên Natur) ar Facebook**

## Pluen sgrech



Pluen sgrech y coed yn nghoed Nanhoron 22/4/19

**Catherine Pritchard**

Mi fydda pysgotwr sy'n arfer cawio (gwneud) ei blu sgota ei hun yn falch ohoni. Yn nabod rhai sy', os gwelan nhw gorff sgrech ar y ffordd, yn stopio a thorri'r adenydd i'r pwrpas hwnnw **Twm Elias**


Pa bryf fydd y bluen hon yn ei ddynwared bysgotwyr?

## Rhesen wen y rhedyn




Gwaith Powdwr Penrhyn 22 Ebrill 2019 (chwith)

Dyma ffenogram o'r holl wyfynod rhesi gwyn y rhedyn a gafwyd mewn trapiau gan DB rhwng 1997




## Dau wyfyn gwyrdd y gwanwyn




TANT SIRIOL *Polyploca ridens* o drap yn Rhyd Ddu



BRYCHAN COCHWYRDD *Chloroclysta siterata*

Bruce Hurst dynnodd y lluniau ac enwi'r gwyfynod




Dyma graff, ffenogram (logarithmig*), o drapiadau'r brychan cochwyrdd, data blynyddoedd 1996- 2015. Gwelfor ac Abergwyngregyn wedi eu cyfuno. Mae'n dangos y patrwm bywyd yn glir iawn, sef yr oedolyn yn ymddangos yn yr hydref, yn gaeaf-gysgu ac yn deffro ym mis Mai. Ar y cyfrif yma mae sbesimen Bruce (o Ryd Ddu, ac un gan DB yn Waunfawr) ar 22 Ebrill yn gynnar iawn.

*Pwrpas y raddfa logarithmig ydi dangos gwerthoedd mawr a bach yr un pryd heb I'r rhai bach gael eu 'boddi'.

## Rhyfeddodau Stryd Fawr Bethesda















Beth oedd yn poeni'r hogia trwy'r ganrif ddiwethaf

## Dipyn o fois.....



Ges i lwc enfawr yn tynnu'r llun yma! Weles i'r wennol-y-bondo yn dod tuag atai, un clic sydyn a dyma'r canlyniad. Wedi gwirioni!

**Angharad Jones**




Dynishi hwn yn Ynysoedd y Moelrhoniaid (Skerries) rhyw 4/5 mlynedd yn ôl tra ddigon lwcus i ymweld efo Wil Williams a ciang y BTO (dwi'n meddwl, neu ella RSPB)


**Gwenllian Williams**



Y Gôg yn cael amser caled gan gorhedydd y waun (ansawdd gwael oherwydd pellter, golau a glaw!). Abergeirw

Un o gyfres
https://www.facebook.com/groups/671177946410845/search/?query=corhedydd&epa=SEARCH_BOX

# Dyfodiad y gwanwyn




Erbyn hyn (ddiwedd Ebrill) mae 2007 (coch) bron wedi disodli 1998 (Bwletin 135) fel y gwanwyn mwyaf blaengar o'r gyfres o 14 mlwyddyn. Ond mae'r gwanwyn eleni (melyn) ar fin 'curo' hwnnw o fymryn fel y gwanwyn tynheraf. Mae 2001 (glas) hefyd wedi disodli 2010 fel y gwanwyn hwyaf ei ddatblygiad (Ionawr i Ebrill)

## Oerfel Mai 2019



Roedd hi wedi rhewi ar fy mhlot i yn rhandir Cae Pawb, Porthmadog bora ma! Mai 11fed, 2019. **Elfyn Lewis**

Dyna oedd profiad sawl un y dyddiau hynny:

Mellt, tarannau a chenllysg yn Fflint 10.42 ddoe

**Gwyn Williams**

## Poer y gog



POER Y GOG CYNTAF ym Morfa Dinlle bore ma (15 Mai). 17 Mai oedd poer cynharaf o gyfres rhyfeddol Joni Crowrach ym Mwlchtocyn yn 1932. Felly hwn ydy'r cofnod cynharaf eto.

Nanhoron (chwith, Catherine Pritchard) a Rhostryfan (Olwen Evans) yr un diwrnod.

## Ffebrins môr



Cannoedd o beli bach tryloyw, fel marblis, ar hyd lan y môr Pwllheli heno. Ar hyd yml y lli i gyd

**Marian Brosschot**

**Febren fôr?**
https://en.m.wikipedia.org/wiki/Pleurobrachia_pileus

## Briallen Yesenby



**Dyma un o uchabwyntiau taith Cymdeithas Edward Llwyd yn ddiweddar I Ynysoedd Erch**

Y Friallen Albanaidd yn ardal Yesenby yn Ynysoedd Erch. Mor fychan a thlws. **Carys Parry**

Briallen yr Alban (*Primula scotica*), blodyn bach hyfryd a gwydn iawn o ystyried ei fod yn byw ar ben clogwyni môr Yesanby, Ynysoedd Erch

**Haf Meredydd**



**Endemig i'r Alban**

Dyma ran o ddosbarthiad y blodyn dros y byd.

Os nad oeddech yn gwybod ystyr 'endemig' cynt rydych yn gwybod rwan!

## Torchau môr






Mwclis (neu dorchau) môr *Euspira catena.* Nifer fawr iawn ohonynt ar draeth Morfa Bychan heddiw meddai **Tristian Evans**

Wyau molwsg nid anhebyg i'r falwen-dir gyffredin. Pan yn gweithio ar Morfa Harlech ym mae Tremadog yn y 1970au bum yn gyfarwydd iawn â rhain ar y penllanw. Mae Morfa Bychan yn agos iawn. Ni welais rhai ar unrhyw draethau eraill na chynt na chwedyn. DB **Dewch a'ch cofnodion...**

## Buchod yn 'swatio'



**Chwith**: buwch gota amryliw (*Harlequin*) yn hel at eu gilydd cyn y gaeaf? Ar bolyn giat wrth ochr cae ar ochr y ffordd A5104 rhwng Llandegla a Bryneglwys, 16 Medi 2018. **Bethan Beech**

**De**: buchod cwta 7-smotyn gefn gaeaf, Abergwyngregyn, Ionawr 1996 (Copi o hen sleid DB gyda'r capsiwn: "buwch goch gota Aber[gwyngregyn] Ion 1996" **DB**

**Yn y flwyddyn 2004 gyrhaeddodd y fuwch gota amryliw Prydain am y tro cyntaf. Cafodd hwb mawr gan haf poeth 2018 - dim rhyfedd bod Bethan wedi cael y llun hwn. Tybed ai hon fydd y dyfodol - a'r fuwch 7-smotyn cyfarwydd yn diflannu?**

## Perlogion bach a mawr



**Britheg berlog, *Boloria euphrosyne*,** pearl-bordered fritillary Craig Adwy Wynt, Mai 6ed. “Digon lwcus i weld tua hanner dwsin ohonynt. Glöyn byw prin iawn i ni yng Nghymru ond gweddol gyffredin ar draws Ewrop.” **Alun Williams**



“Dyma’r **fritheg berlog fach.”** Gofynais i Alun esbonio sut mae gwahaniaethu rhwng y berlog a’r berlog fach. Dyma ddywedodd...

“Er bod y ddau gyda pherlau gwyn ar y tan adain, mae llawer mwy o baneli gwyn ar y fritheg berlog fach, mae lliw mwy euraidd ar y fritheg berlog a dim ond dau banel gwyn/arian ar y tan adain. Mae smotyn du ar banel siap pentagon ar y ddau bili pala ond mae y smotyn du llawer mwy ar y fritheg berlog fach. [nid yw’n hawdd esbonio heb ddefnyddio termau Lladin! ] Mae’r gwahaniaethau yn amlwg yn y lluniau. Britheg berlog - diwedd Ebrill i ddiwedd Mehefin ac hefyd 'ail nythiad' weithiau ym mis Awst. Britheg berlog fach - canol Mai i ddechrau Gorffennaf, ac weithiau ym mis Awst.

**Alun Williams**


## Tan ar y comin - tannau Mai



Tân wedi bod ar **Gomin Uwchgwyrfai** prynhawn yma. Wedi ei ddiffodd bellach diolch i waith chwim y frigad dân. Mae'n ymddangos bo'r gwaith torri gafodd ei wneud ar y comin rhai wythnosau yn ôl wedi creu 'fire breaks' effeithiol iawn neu fysa wedi bod yn llawer gwaeth. **Catrin Lliar Jones**

27/5/2017: **Clwt y Bont:** *50 firefighters tackle massive Gwynedd gorse fire through the night. Crews came from as far away as Rhyl to assist with the blaze at Clwt-y-Bont near Deiniolen North Wales Fire and Rescue Service were called at 10.49pm last night to what was initially reported as a minor gorse fire. However upon arrival the blaze had spread quickly and several more crews, including off-road vehicles, were sent to the scene.*
http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/50-firefighters-tackle-massive-gwynedd-13100921

## Mewnfudwr arall yn setlo



**Llun lwcus**, tynnu lluniau’r môr-wenoliaid ym Mae Cemlyn pan hedfanodd y wylan yma o flaen y lens. Gwylan Môr y Canoldir (ail flwyddyn): maent yn nythu ym Mae Cemlyn, Ynys Mon. **Alun Williams**

Dyma fanylion o'r we:
*The range of the Mediterranean gull has expanded markedly over the last 50 years. The first breeding occurrence in Britain was in 1968, at Needs Ore Point (Hampshire). Thereafter, a pair bred at Dungeness (Kent), in 1979, increasing to two pairs by 1985. A site in north Kent was colonised in 1983, which later became established as one of the major colonies in England.*

*Also during this period, a handful of other breeding attempts were made, including pairings with black-headed gulls.*



Gwylan benddu: a fyddai gwylan benfrown yn well enw? **Alun Williams 26/04/2011**

**Cofiwch am wefan gyffrous www.llennatur.cymru**

# Tylluanod - R. Williams Parry

## Y TRYDYDD PENNILL

**Pan lithrai gloywddwr Glaslyn i'r gwyll fel cledd i'r wain...**


...gloywddwr Glaslyn

*Tir Ynysfor sydd ar y dde a Moel Ddu welir yn y cefndir.*
*Llun: Gwilym O. Evans*

*Llyn Glaslyn yw tarddle Afon Glaslyn cyn lllifo drwy Lynnoedd Gwynant a Dinas, heibio Beddgelert a Phont Aberglaslyn. Codwyd ffermdy gwreiddiol Ynysfor (a welir ar y dde) tua 1700. Ehangwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yna codwyd plasdy newydd tua diwedd y ganrif honno (isod). Wedyn, defnyddiwyd yr hen ffermdy ar gyfer y gweision a'r morwynion.*


Yr Ynysfor gwreiddiol


.. rhwng briglas lwyni'r brain

Y Plas

**Pan gochai pell ffenestri'r plas**
**Rhwng briglas lwyni'r brain,**



**Pan gaeai syrthni safnau'r cŵn,**
**Nosâi Ynysfor yn eu sŵn.**

***Ceir sôn mewn hen bennill arall am 'Ynysfor' ….***
'Ceilog bach yr Wyddfa yn canu ar y bryn
Hwyaid Aberglaslyn yn nofio ar y llyn.
Gwydda' Hafodgregog yn gweiddi wich di wach
A milgwn Jones ***Ynysfor*** ar ôl y llwynog bach....'

**Trydedd ymdriniaeth o waith y bardd, gan Gareth Pritchard**